

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol
(Lle rhoddwyd rhybudd)**

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr

Gofal Deintyddol Oasis
Ewlo

9 Ebrill 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|---------------------------------------|----|
| 1. | Cyflwyniad..... | 2 |
| 2. | Methodoleg | 2 |
| 3. | Cyd-destun..... | 4 |
| 4. | Crynodeb | 5 |
| 5. | Canfyddiadau | 6 |
| | Profiad y Claf..... | 6 |
| | Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal | 10 |
| | Rheolaeth ac Arweinyddiaeth..... | 16 |
| | Ansawdd yr Amgylchedd..... | 19 |
| 6. | Y Camau Nesaf..... | 21 |
| | Atodiad A..... | 22 |

1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ofal Deintyddol Oasis Ewlo ym Mhentref Busnes Lakeside, Ewlo, Sir y Fflint, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 9 Ebrill 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Gofal Deintyddol Oasis Ewlo yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Ewloe, Sir y Fflint. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae Gofal Deintyddol Oasis yn gwmni mawr sy'n berchen ar nifer fawr o bractisau deintyddol ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae Gofal Deintyddol Oasis Ewlo yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, un hylenydd, un therapydd, wyth nyrs, un derbynnnydd, ac un rheolwr llawn amser yn y practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredin a gwasanaeth hylenydd preifat.

4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut mae Gofal Deintyddol Oasis Ewloe yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn yn y practis deintyddol a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion yn holiaduron AGIC, ac roedd y sylwadau yn canmol staff y practis. Gwnaethom nodi bod angen i'r practis ddiweddarau rhywfaint o'r wybodaeth a ddarperir i'r cleifion yn y taflenni gwybodaeth ac ar y wefan.

Yn gyffredinol, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi ar gyfer cleifion mewn modd diogel. Canfuom fod yr holl ystafelloedd triniaeth yn ymddangos yn lân, yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda. Gwelsom dystiolaeth bod prosesau dadheintio'r practis yn cael eu cynnal i safon dda gan y staff nyrsio. Gwnaethom argymhellion ynglŷn â rhywfaint o'r offer a ddefnyddir yn y practis er mwyn lleihau'r perygl o anafiadau gan nodwyddau i'r staff. Gwnaethom hefyd nodi gwelliannau a oedd eu hangen i gofnodion y cleifion.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Yn seiliedig ar yr hyn a welwyd ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y practis yn cael ei redeg yn effeithlon ac roedd y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod yr holl staff, gan gynnwys y deintyddion, yn cael arfarniadau blynyddol i sicrhau eu cymhwysedd ac i ganfod unrhyw anghenion hyfforddi.

Gwelsom fod y practis yn fawr, yn fodern ac wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth. Mae mynediad i'r practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn yn y practis deintyddol a'u bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion yn holiaduron AGIC, ac roedd y sylwadau yn canmol staff y practis. Gwnaethom nodi bod angen i'r practis ddiweddarau rhywfaint o'r wybodaeth a ddarperir i'r cleifion yn y taflenni gwybodaeth ac ar y wefan.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddisbarthu holiaduron AGIC er mwyn gwybod barn cleifion ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd ugain o holiaduron gan gleifion. Gwnaethom hefyd siarad â nifer fach o gleifion ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal roeddent yn ei dderbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff.

Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Practis neis a staff neis, da iawn!"

"Staff cyfeillgar a chymwynasgar."

"Mae'r gofal yn y practis hwn yn rhagorol."

"Staff cymwys iawn, proffesiynol a chyfeillgar."

"Mae'r practis deintyddol bob amser wedi bod yn gymwynasgar ac wedi fy helpu pan oedd angen i mi drefnu apwyntiad ar fyr rybudd i gael triniaeth ar frys."

"Rwy'n dioddef o glefyd y deintgig ac wedi derbyn gofal trylwyr gan fy neintydd/hylenydd."

Dywedodd mwy na hanner y cleifion nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i weld y deintydd. Dywedodd rhai cleifion hefyd a brofodd rywfaint o oedi nad oedd hyn wedi bod am gyfnod hir, ac nid oedd yn digwydd yn aml. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedwyd wrthym fod y deintydd yn esbonio triniaeth i gleifion ar lafar, a rhoddwyd enghraifft o wybodaeth ysgrifenedig am driniaeth i ni. Roedd hon yn cael ei rhoi i gleifion ar gyfer triniaethau mwy cymhleth megis sianel y gwreiddyn.

Roedd mwyafrif y cleifion yn gwybod sut i fynd at wasanaethau deintyddol yn ystod argyfwng. Gwelsom arwydd y tu allan i'r practis yn dangos y rhif cyswllt brys, a gwnaethom gadarnhau hefyd bod rhif cyswllt ar neges peiriant ateb y practis.

Roedd gan y practis flwch awgrymiadau, ac roeddent yn annog cleifion i ddarparu adborth trwy'r wefan fel ffordd o asesu ansawdd y gofal roeddent yn ei ddarparu. Gwelsom hefyd esiamplau o holiaduron cleifion blaenorol a ddefnyddiwyd cyn y system ar-lein. Roedd canlyniadau arolygon cleifion cyfredol yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd a gwefan y practis. Ar adeg yr arolygiad, dangosodd canlyniadau arolwg raddfa o 100% ar gyfer bodlonrwydd cleifion. Gwnaethom drafod â'r practis yr angen i fonitro cyfran yr ymatebion adborth a dderbyniwyd trwy'r wefan, oherwydd efallai na fyddai rhai cleifion yn gallu cael mynediad at hon. Cytunodd rheolwr y practis i hyn ac fe wnaeth hefyd argymhell y gallent ddsbarthu holiaduron papur i gleifion y practis.

Dywedodd wyth claf wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn, ond dywedodd y cleifion hyn hefyd eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth felly nad oeddent wedi teimlo'r angen i gwyno. Roedd polisi cwynion ar yr hysbysfwrdd yn yr ardal aros. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau eraill y gallai cleifion gysylltu â nhw pe bai ganddynt gŵyn, megis y Cyngor Iechyd Cymuned a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Rydym wedi gwneud argymhelliad ynglŷn â'r hyn sydd angen ei ddiweddarau yn y polisi cwynion yn adran Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn (tudalen 16).

Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael i gleifion yn yr ystafell aros. Fodd bynnag, gwelsom fod angen diweddarau'r taflenni gwybodaeth oherwydd eu bod yn nodi cydymffurfedd a chofrestriad â'r Comisiwn Ansawdd Gofal (rheoleiddiwr iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr) ac nid AGIC.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddiweddarau'r daflen wybodaeth gyda'r wybodaeth gywir am y rheoleiddiwr a'r arolygiaeth ar gyfer practisau yng Nghymru (AGIC nid y Comisiwn Ansawdd Gofal).

Ceir gwefan gorfforaethol sy'n cynnwys manylion y practis. Nid oedd cyfeiriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁴ ar y wefan ar adeg yr arolygiad, na dolen i

⁴Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yw'r sefydliad sy'n rheoleiddio deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

wefan y Cyngor fel sy'n ofynnol gan ei ganllawiau hysbysebu. Roedd gwefan Gofal Deintyddol Oasis yn cynnwys y weithdrefn gwyno gorfforaethol a rhai sefydliadau y gall cleifion gysylltu â nhw pe byddai ganddynt gŵyn. Fodd bynnag, roedd yn cyfeirio at Fwrdd Comisiynu'r GIG (sy'n berthnasol yn Lloegr yn unig) ac nid gweithdrefn y GIG ar gyfer cwynion gan gleifion yng Nghymru a adnabyddir fel 'Gweithio i Wella'.⁵ Roedd y wefan hefyd yn cyfeirio at y Comisiwn Ansawdd Gofal, sy'n anghywir, yn hytrach nag AGIC. Nid oedd hefyd yn cynnwys manylion ar gyfer y Cyngor Iechyd Cymuned na'r bwrdd Iechyd er mwyn i gleifion gysylltu â nhw pe bai'r angen yn codi, fel y nodwyd yn 'Gweithio i Wella'. Yn gyffredinol, roedd rhywfaint o'r wybodaeth a ddarparwyd ar y wefan yn anghywir ac o bosibl yn gamarweiniol i gleifion yng Nghymru.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir ar ei wefan yn cael ei diweddarau er mwyn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu moesol.

Dylai'r wybodaeth a ddarperir ar y wefan gorfforaethol gael ei diweddarau fel ei bod yn berthnasol i gleifion yng Nghymru. Lle ceir gwybodaeth am gwynion, dylid hefyd diweddarau'r manylion am y sefydliadau y gallai cleifion gysylltu â nhw pe bai cwyn ganddynt i gynnwys AGIC, y Cyngor Iechyd Cymuned, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (yn unol â'r hyn a nodwyd yn Gweithio i Wella).

Gwelsom yn yr ystafelloedd aros i gleifion mai prin oedd y wybodaeth hyrwyddo Iechyd a oedd ar gael i gleifion, fel ymwybyddiaeth o ganser y geg a rhoi'r gorau i smygu. Er y dywedodd y deintyddion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn trafod rhoi'r gorau i smygu gyda chleifion a oedd yn smygu, nid oedd cardiau a thafenni gwybodaeth y GIG am roi'r gorau i smygu ar gael i'w rhoi i gleifion a allai fod yn ystyried gwneud hyn. Un o'r meini prawf ar gyfer bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal yw bod rhoi'r gorau i smygu yn cael ei gefnogi a'i hyrwyddo.

⁵Gweithio i Wella' yw'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru ac ymateb iddynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis roi gwybodaeth bellach am hyrwyddo iechyd i gleifion, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmegu ac atal a bod yn ymwybodol o ganser y geg.

Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried sut y gallent wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gleifion. Er enghraifft, gallent ddefnyddio maint ffont/testun mwy a darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan y cleifion.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi i gleifion mewn modd diogel. Canfuom fod yr holl ystafelloedd triniaeth yn ymddangos yn lân, yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda. Gwelsom dystiolaeth bod prosesau dadheintio'r practis yn cael eu cynnal i safon uchel gan y staff nyrsio. Gwnaethom argymhellion ynglŷn â rhywfaint o'r offer a ddefnyddir yn y practis er mwyn lleihau'r perygl o anafiadau gan nodwyddau i'r staff. Gwnaethom hefyd nodi bod angen gwella cofnodion y cleifion.

Cyfleusterau Clinigol

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob un o ystafelloedd triniaeth y practis, a gwelsom eu bod yn cynnwys offer addas ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Roedd yr ystafelloedd triniaeth i gyd i'w gweld yn lân, yn daclus, ac wedi eu trefnu'n dda. Roedd yr holl arwynebau yn rhydd wrth annibendod fel y gellid eu glanhau mewn modd effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o'r arferion glanhau dyddiol a wnaed gan y nyrsys. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i wirio bod y dyfeisiadau trydanol bach a ddefnyddir yn y practis yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom fod rhwyg yn un o'r cadeiriau a ddefnyddir gan staff clinigol yn un o'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear, ac fe fyddai hyn yn atal glanhau trylwyr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis wneud gwelliannau i'r gadair a ddefnyddir gan y staff clinigol yn yr ystafell driniaeth ar y llawr daear er mwyn sicrhau y gall gael ei lanhau'n effeithiol i leihau'r perygl o groes-heintio.

Gwnaethom sylwi bod y staff clinigol yn defnyddio hen ddull ar gyfer gwaredu ar nodwyddau, ac roedd hyn yn peri mwy o berygl i'r staff o ran cael anafiad gan offer miniog. Er nad oedd y staff wedi profi anafiadau tebyg yn ddiweddar, gwnaethom gynghori'r practis i roi cychwyn ar y system nodwyddau diogel a argymhellir, er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio ac o anafiadau i staff gan offer miniog. Yn yr un modd, gwelsom fod y practis yn defnyddio math o offer (bandiau matrices ar gyfer dal deunydd llenwadau'n ddiogel) sy'n anodd eu cadw'n lân ac sydd hefyd yn creu perygl i'r staff o ran cael eu hanafu gan offer miniog. Argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 bod yr offer hwn yn cael ei ddisodli gan fandiau matrices untro. Er inni weld bod y practis yn cadw'r offer hwn yn briodol lân, gwnaethom argymhell y dylid ystyried newid i fandiau matrices untro.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried newid i system fwy diogel i waredu ar offer miniog.

Dylai'r practis ystyried disodli'r bandiau matrices gan fathau untro, er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio ac i amddiffyn staff rhag anafiadau posibl gan offer miniog oherwydd yr anawsterau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio'r math hwn o offer.

Dadheintio offer

Roedd dwy ystafell benodol gan y practis ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol, y naill ar y llawr daear a'r llall ar y llawr cyntaf. Gwelsom fod prosesau addas ar waith i atal cleifion rhag croes-heintio. Roedd y ddwy ystafell wedi'u trefnu mewn ffordd addas ar gyfer glanhau offer yn effeithiol. Roedd hefyd system addas ar gyfer sicrhau bod offer yn cael ei ddefnyddio o fewn y cyfnod storio a argymhellir.

Gwelsom fod polisi a gweithdrefnau dadheintio yn cael eu harddangos ar y wal. Gwelsom hefyd fod llyfrau cofnodi addas wedi cael eu cwblhau ar gyfer gwirio a chynnal a chadw offer glanhau bob dydd. Roedd gan y practis lyfr cofnodi dyddiol hefyd ar gyfer gwiriadau eraill oedd yn cael eu cynnal gan y nyrsys. Roedd yr holl lyfrau cofnodion wedi cael eu cwblhau i safon uchel. Golygai hyn fod gan y practis system dda ar gyfer sicrhau bod y dull o lanhau offer yn gywir, fel y gallai offer gael ei lanhau'n effeithiol. Defnyddiwyd dull glanhau â llaw yn safonol, cyn sterileiddio'r offer, ac fe wnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried gosod dadheintydd golchi yn y dyfodol (math o offer glanhau a argymhellir), oherwydd fe fyddai hyn yn helpu i lanhau offer mewn ffordd ddibynadwy ac yn lleihau'r perygl o anafiadau i staff gan offer miniog.

Roedd sinc golchi dwylo neilltuedig ar gael i helpu i reoli heintiau. Nid oedd gan yr ystafell ddadheintio ar y llawr cyntaf sinciau ar wahân i lanhau offer budr a'i rinsio, ond roedd ganddi fowlenni ar wahân. Nid oedd cynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd i osod sinciau ar wahân. Tra bod y trefniant hwn yn bodloni gofynion sylfaenol canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05,⁶ mae'r dull o ddefnyddio dwy fowlen yn cael ei ddiffinio fel datrysiad dros dro, a dylai cynlluniau gwelliannau parhaus osgoi'r angen i ddefnyddio bowlenni, a'u disodli gan sinciau neilltuedig sydd wedi'u cynllunio at y diben hwn. Oherwydd

⁶ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

bod gan ardal ddadheintio'r llawr cyntaf le digonol, dylai'r practis newid i'r safon a argymhellir. Trafodwyd hyn â'r practis, a gwnaethom eu cynghori i fynd i'r afael â hyn.

Gwelsom fod yr holl gyfarpar diogelu personol ar gael ar gyfer cynnal y broses ddadheintio. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar weithdrefnau dadheintio a rheoli heintiau. Gwnaeth y practis gynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod y dull archwilio a ddefnyddiwyd oedd wedi'i lunio'n bennaf i'w ddefnyddio yn Lloegr, a gwnaethom argymhell bod y practis yn defnyddio'r dull archwilio a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerdydd, fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, sydd ar gyfer Cymru yn benodol.

Gwaredu gwastraff

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff cyfredol ar waith.

Cyfarpar radiograffeg (pelydr-X)

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd dogfennau perthnasol ar gael, gan gynnwys dogfennau ynglŷn â gwiriadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol wedi mynychu hyfforddiant addas ar ymbelydredd ïoneiddio. Gwelsom fod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, sy'n cynnwys manylion am yr offer a'r gweithdrefnau pelydr-X i'r staff gadw atynt, yn drefnus ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis y byddai arfer da mewn perthynas â'r rheolau lleol, sy'n darparu gwybodaeth i staff ar y gweithdrefnau y dylid cadw atynt o ran tynnu delweddau pelydr-X, yn golygu cymhwyso'r rheolau hyn at bob peiriant a phob ystafell driniaeth yn benodol. Gwnaeth rheolwr y practis gytuno i gynnwys y manylion ychwanegol hyn. Gwnaethom hefyd sylwi nad oedd arwydd yn rhybuddio am amlygiad i ymbelydredd ar ddrws un o'r ystafelloedd triniaeth i fyny'r grisiau. Cytunodd rheolwr y practis i gywiro hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod holl arwyddion addas sy'n rhybuddio am ymbelydredd yn eu lle.

Gwnaethom sylwi bod math o offer pelydr-X (orthopantomograff) wedi'i storio mewn ystafell ar y llawr daear a oedd ar hyn o bryd yn cael ei defnyddio fel storfa, ond nid oedd hwn yn cael ei ddefnyddio bellach, ac roedd wedi bod yn y cyflwr hynny ers nifer o flynyddoedd. Dywedodd staff wrthym y byddent yn hoffi

ei fod wedi'i drwsio, ond oherwydd y byddai hyn yn gostus, nid oedd unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i wneud hyn. Er bod y peiriant yn ymddangos ei fod yn cael ei storio mewn ffordd ddiogel ac roedd arwydd 'peidiwch â defnyddio' arno, a hefyd roedd staff yn cadarnhau na allai gael ei danio'n ddamweiniol, yn ddelfrydol fe ddylai'r practis ystyried naill ai ddatgomisiynu'r offer neu drefnu iddo gael ei drwsio.

Cyfarpar meddygol brys a meddyginiaeth frys

Roedd offer dadebru a meddyginiaeth ar gael i staff pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu) yn y practis. Roedd y cyfarpar hwn wedi'i storio mewn lleoliad addas, ac roedd gan y practis system addas ar gyfer sicrhau bod cyfarpar dadebru a meddyginiaeth a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod siartiau llif a ddefnyddir mewn achosion brys ar waliau'r ystafelloedd triniaeth, ac roedd siartiau llif ar gyfer achosion brys meddygol eraill wedi'u cynnwys gyda'r feddyginiaeth brys er mwyn hysbysu staff am ba weithdrefn i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol. Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn y practis wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a bod swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion deg o gleifion. Ar y cyfan, gwelsom fod cadw cofnodion cleifion o safon foddhaol, ac roedd cofnodion un deintydd yn enwedig o safon uchel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen rhai gwelliannau ar gofnodion y cleifion. Tra bod ein canfyddiadau yn ymwneud â nifer fach o gofnodion ac efallai nad ydynt yn adlewyrchiad o fwyafrif y nodiadau, dylai'r practis sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â'r meysydd a nodir ac nad ydynt yn faterion systematig wrth gadw cofnodion.

Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud yn ddiweddar o ran manylder mewn nodiadau cleifion. Dywedodd y deintyddion y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cynnal archwiliad gan gymheiriaid yn ddiweddar ar eu nodiadau clinigol, ac roedd hyn yn cyfateb i'n canfyddiadau.

Gwelsom nad oedd gan y practis system addas ar gyfer casglu hanesion meddygol cleifion a sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau ar adeg pob triniaeth a'u cydlofnodi gan y deintydd. Mae cydlofnodi'n arfer da ac yn helpu i sicrhau bod y deintydd yn ymwybodol o hanes meddygol y claf ac unrhyw oblygiadau a allai hyn ei gael ar eu triniaeth. Gwelsom nad oedd lle wedi cael ei ddarparu ar y ffurflen hanes meddygol gorfforaethol er mwyn i ddeintyddion ei chydlofnodi, ac fe wnaeth staff gadarnhau nad oedd hwn yn rhan o bolisi'r cwmni. Er nad oedd cydlofnodi hanesion meddygol yn ofyniad gorfodol, mae'n ofynnol bod

hanesion meddygol cyflawn a chywir yn cael eu cofnodi a'u diweddarau ym mhob triniaeth. Fodd bynnag, yn y nodiadau a welsom, canfuom nad oedd hanesion meddygol yn cael eu diweddarau'n gyson fel mater o drefn ym mhob triniaeth. Gwelsom hefyd nad oedd hanes meddygol un claf yn cofnodi manylion digonol am eu hanes blaenorol.

Er bod meinwe feddal (deintgig) yn cael ei harchwilio'n rheolaidd, nid oedd gwybodaeth ynghylch sgrinio canser y geg bob amser yn cael ei chofnodi'n benodol, ac ni roddwyd unrhyw esboniadau i'r cleifion ynglŷn â sgrinio canser. Gwelsom hefyd nad oedd unrhyw sgyrsiau â chleifion ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu yn cael eu cofnodi'n gyson.

Nid oedd amllder ail-alw cleifion (pa mor aml y byddai angen i gleifion fynychu apwyntiadau) bob amser yn cael ei gofnodi, sy'n golygu ei bod yn aneglur a oedd canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn cael eu dilyn.

Gwnaethom edrych ar y nodiadau ynghylch pelydrau-X cleifion, a gwelsom fod rhai anghysondebau ynglŷn â'r amser pan oedd pelydrau-X yn cael eu cymryd. Er enghraifft, mae'n arferol i gymryd pelydr-X cyn llenwad sianel y gwreiddyn, ond yn un o'r nodiadau y gwnaethom eu harchwilio, ni chofnodwyd gwybodaeth am gymryd pelydr-X. Mewn cofnod arall, gwelsom nad oedd pelydr-X wedi cael ei gymryd tan bod dant claf yn cael ei dynnu, yn hytrach na chyn y driniaeth. Yn yr achos hwn, roedd yn dangos enghraifft wael o gynllunio triniaeth.

Gwnaethom hefyd sylwi bod y lleiafswm o driniaethau atal (e.e. fflworid) yn cael eu defnyddio ar gleifion sydd â pherygl uchel o bydredd a phlant, a fyddai'n helpu i ddiogelu rhag pydru dannedd ymhellach. Gwnaethom drafod hyn â'r practis, a wnaeth gytuno i adolygu eu hagwedd tuag at driniaeth ataliol.

Yn saith cofnod y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom nad oedd caniatâd cleifion yn cael ei gofnodi. Mewn un cofnod plentyn, gwelsom hefyd nad oedd y gwarcheidwad a oedd yn darparu caniatâd ar ran y plentyn wedi'i gofnodi. Mae'n bwysig bod trafodaethau â chleifion yn ystod y broses o gael caniatâd yn cael eu cofnodi, gan mai'r trafodaethau hyn sy'n penderfynu a yw caniatâd yn ddilys. Mae caniatâd yn broses barhaus a rhaid gwirio i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddilys ar bob cam o driniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid gwella'r broses o gadw cofnodion cleifion, a dylid cofnodi'r canlynol yn nodiadau cleifion yn gyson:

- ***System gadarn ar gyfer cael a diweddarau hanesion meddygol cleifion***
- ***Sgrinio canser y geg***
- ***Cyngor am roi'r gorau i ysmygu***
- ***Galw'n ôl***
- ***Cydsyniad y claf***

Dylai'r practis hefyd ystyried cynnal adolygiad o'r ffordd mae'n cymryd pelydrau-X (cynllunio triniaeth) ac yn rhoi triniaeth ataliol (fflworid) i oedolion sydd â pherygl uchel o bydredd a phlant.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Yn seiliedig ar yr hyn a welwyd ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y practis yn cael ei redeg yn effeithlon ac roedd y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod yr holl staff, gan gynnwys y deintyddion, yn cael arfarniadau blynyddol i sicrhau eu cymhwysedd ac i ganfod unrhyw anghenion hyfforddi.

Cafodd Gofal Deintyddol Oasis Ewlo ei sefydlu yn 2006, ac mae'n bractis deintyddol corfforaethol sy'n eiddo i Ofal Deintyddol Oasis. Roedd rheolwr practis profiadol yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg mewn ffordd effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod yn hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan reolwr y practis.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith. Yn gyffredinol, roedd system addas ar waith i sicrhau bod y polisiâu hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod staff yn ymwybodol ohonynt. Er bod mwyafrif y polisiâu wedi cael eu dyddio, gwnaethom ganfod bod angen dyddiadau adolygu ar rai polisiâu, a gwnaethom atgoffa'r practis am yr angen i gynnwys hyn ar gyfer yr holl bolisiâu, er mwyn sicrhau mai dyma'r fersiwn ddiweddaraf. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael polisiâu i'w llofnodi a bod diweddariadau yn cael eu rhoi yn ystod cyfarfodydd tîm.

Dywedodd y prif ddeintydd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal oddeutu bob rhyw fis neu ddau. Gwelsom enghreifftiau o nodiadau cyfarfodydd diweddar a oedd yn cofnodi manylion trafodaethau a chymau gweithredu yn sgil y cyfarfodydd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn cael eu hannog i leisio unrhyw bryderon yn ystod y cyfarfodydd hyn, ond y byddent hefyd yn teimlo'n gyfforddus i leisio pryderon gyda rheolwr y practis ar unrhyw adeg.

Dywedwyd wrthym fod arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal ar gyfer y mwyafrif o aelodau o staff yn y practis. Mae arfarniadau'n bwysig er mwyn sicrhau cymhwysedd staff ac i ganfod unrhyw anghenion hyfforddi. Fodd bynnag, nid oedd arfarniadau na chynlluniau datblygu personol wedi cael eu cynnal ar gyfer y deintyddion, a gwnaethom drafod yr angen i wneud hyn â'r practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r holl staff, gan gynnwys deintyddion, gael arfarniadau blynyddol a chynlluniau datblygu personol.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau llywodraethu clinigol a oedd ar waith yn y practis er mwyn helpu i sicrhau ansawdd a diogelwch y gofal. Dywedodd y deintyddion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda'i gilydd, ac yn ddiweddar roedd hyn yn cynnwys cadw cofnodion a chanser y geg. Dywedodd y deintyddion wrthym hefyd eu bod yn aml yn cynnal trafodaethau clinigol â'i gilydd, a'u bod yn elwa ar gael barn rhywun arall. Fodd bynnag, gwnaeth y deintyddion nodi eu bod yn ansicr ynglŷn â'r trefniadau ffurfiol o ran goruchwyliaeth glinigol. Cadarnhaodd rheolwr y practis y gallai'r deintyddion gysylltu â chyfarwyddwr clinigol Gofal Deintyddol Oasis pe bai angen cyngor a chymorth ychwanegol arnynt. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod y deintyddion yn llwyr ymwybodol o hyn.

Gwnaethom edrych ar wybodaeth am y staff yn y practis. Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi cael eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol. Dywedwyd wrthym fod gan yr holl staff gontractau cyflogaeth ar waith, ond nid edrychwyd arnynt ar yr achlysur hwn.

Gwelsom dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus personol (hyfforddiant) a gwblhawyd gan staff y practis, a oedd yn dangos bod staff wedi cael cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion fod yn sicr eu bod yn derbyn triniaeth gan staff sydd â sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol ac sy'n hyderus a chyfarwydd â'u man gwaith. Roedd ffeiliau staff yn drefnus ac roedd yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion.

Ar adeg ein harolygiad, roedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwnaethom hefyd ganfod bod gan holl aelodau eraill y staff wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i sicrhau eu haddasrwydd ar gyfer cyflogaeth.

Roedd gan y practis drefniadau addas ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau. Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith i gynnig cymorth iechyd galwedigaethol trwy'r bwrdd iechyd. Gwelsom gofnodion i ddangos bod mwyafrif y staff clinigol wedi derbyn brechiadau priodol i'w hamddiffyn rhag firysau a gludir yn y gwaed. Fodd bynnag, roedd cofnodion un o'r deintyddion yn aneglur, ac roedd cofnodion ar gyfer nifer o aelodau eraill y staff yn dangos

bod angen pigiad atgyfnerthu ymhen pum mlynedd, ac roedd hwn wedi dod i ben erbyn hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff clinigol yn cael brechiadau priodol, gan gynnwys unrhyw frechiadau atgyfnerthu a argymhellir, i'w hamddiffyn rhag firysau a gludir yn y gwaed.

Gwelsom fod trefniadau addas i gofnodi pryderon (cwynion). Roedd gan y practis hefyd daflen grynodedb a oedd yn rhoi manylion am y cwynion a dderbyniwyd. Gwelsom fod yr holl gwynion a dderbyniwyd yn cael eu cadw mewn ffeil ar bapur, ac roedd pob ymateb yn cael ei gadw mewn ffolder ar y cyfrifiadur. Er bod hwn ar gael yn hawdd i reolwr y practis, gwnaethom argymhell y dylid cadw'r holl ohebiaeth sy'n ymwneud â chwynion gyda'i gilydd lle bo hynny'n bosibl. Dywedodd rheolwr y practis wrthym y byddent yn symud i system borthol ar-lein yn fuan, lle byddai cwynion yn cael eu sganio ac ymatebion eu diweddarau ar gronfa ddata ganolog. Roedd cwynion ar lafar a chwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi'n briodol, ac roedd yr wybodaeth am hyn yn dangos bod cleifion wedi nodi mater ynglŷn â'r llinellau ffôn ac wedi nodi eu bod yn cael trafferth i gael ateb. Cadarnhaodd rheolwr y practis eu bod yn ymchwilio i hyn.

Gwelsom fod y broses gwyno yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r trefniadau yn y weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion y GIG o'r enw 'Gweithio i Wella', ac roedd yn cynnwys rhestr o sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw pe byddai ganddynt gŵyn. Fodd bynnag, roedd angen i'r polisi gynnwys manylion cyswllt AGIC ar gyfer cleifion preifat a manylion y Cyngor Iechyd Cymuned, a all ddarparu cymorth eiriolaeth i gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid diweddarau'r polisi cwynion i gynnwys manylion cyswllt AGIC ar gyfer cleifion preifat a manylion y Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer cleifion y GIG.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfriad â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg yn y cyswllt hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod y practis yn fawr, yn fodern ac wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth. Mae mynediad i'r practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Mae'r practis wedi'i leoli mewn uned fawr ar barc busnes yn Ewlo. Mae gan y practis bum ystafell driniaeth - dwy ar y llawr daear a thair ar y llawr cyntaf. Mae manau parcio neilltuedig a pharcio i bobl anabl y tu allan i'r practis.

Roedd mynediad at y practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, ac roedd fframiau'r drysau drwy gydol llawr daear y practis yn ddigon llydan i ganiatáu mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn. Nid oedd lifft i'r llawr cyntaf, ond gellid trin cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn yr ystafelloedd triniaeth mawr ar y llawr daear. Roedd gan y practis gynllun eang iawn, yn enwedig ar gyfer ardaloedd y llawr daear, lle roedd coridorau eang a chownter yn y dderbynfa sydd wedi'i ostwng. Golyga hyn ei fod yn hawdd i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn gyrraedd yr ardaloedd hyn. Roedd dolen sain hefyd ar gael i gynorthwyo cleifion gyda chymhorthion clyw.

Roedd yr ardaloedd aros a'r dderbynfa yn fawr ac o faint digonol ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth. Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Roedd y practis yn lân ac yn daclus ac yn cael digon o olau, ac roedd yn darparu amgylchedd dymunol i gleifion dderbyn triniaeth ynndo.

Roedd gan y practis doiled hygyrch neillryw i gleifion ac un toiled neillryw i'r staff. Roedd y ddau doiled i'w gweld yn lân, ac roeddent yn cynnwys cyfleusterau ymolchi dwylo addas er mwyn rheoli heintiau.

Roedd arwydd y tu allan i'r practis yn nodi'r oriau agor, y rhif cyswllt mewn argyfwng, ac enw pob deintydd. Roedd rhifau cofrestrïad y deintyddion gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos ar boster gerllaw y dderbynfa. Roedd rhestr brisiau ar gyfer triniaethau – i gleifion y GIG a chleifion preifat – wedi'i harddangos yn eglur yn yr ardal aros.

Yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis. Gwnaethom sylwi bod angen cywiro enw'r practis ar un dystysgrif, a gwnaed trefniadau ar gyfer hyn yn dilyn yr arolygiad.

Roedd arwydd at y brif allanfa dân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n briodol. Nid oedd archwiliad manwl o systemau eraill ar gyfer amddiffyn tân yn rhan o'r arolygiad hwn; fodd bynnag, cyfrifoldeb y practis yw sicrhau bod mesurau a systemau addas ar waith i amddiffyn staff a chleifion mewn tân.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i atal mynediad heb ganiatâd i'r adeilad, ac roedd mwyafrif cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel. Fodd bynnag, yn un o'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear, gwelsom flwch o radiograffau a oedd wedi cael eu prosesu â llaw, gan gynnwys rhywfaint o wybodaeth cleifion, wedi'i gadw mewn cwpwrdd heb ei gloi. Mae hyn yn ffurfio rhan o gofnod y cleifion ac fe ddylai gael ei storio'n ddiogel. Yn ddelfrydol, dylai'r rhain gael eu cadw yn yr un lleoliad â chofnodion eraill y cleifion er mwyn osgoi'r perygl eu bod yn cael eu gwahanu ac yn mynd ar goll.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i holl wybodaeth cleifion, gan gynnwys radiograffau a broseswyd â llaw, gael ei chadw'n gyfrinachol a'i storio'n ddiogel fel rhan o gofnodion y cleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y byddai'r canfyddiadau a nodwyd yng Ngofal Deintyddol Oasis Ewlo yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Gofal Deintyddol Oasis Ewlo

Dyddiad yr arolygiad: 9 Ebrill 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|--|--|----------|
| | Profiad y Claf | | | |
| 7 | Dylai'r practis ddiweddarau'r daflen wybodaeth gyda'r wybodaeth gywir am y rheoleiddiwr a'r arolygiaeth ar gyfer practisau yng Nghymru (AGIC nid y Comisiwn Ansawdd Gofal). [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.3.3] | Ar hyn o bryd, mae Gofal Iechyd Oasis yn diweddarau'r taflenni cleifion i gynnwys gwybodaeth am AGIC. | Rheolwr y practis i gymryd camau dilynol | 1 mis |
| 8 | Dylai'r practis sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir ar ei wefan yn cael ei diweddarau er mwyn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu moesol. Dylai'r wybodaeth a ddarperir ar y wefan gorfforaethol gael ei diweddarau fel ei bod yn | Ar hyn o bryd, mae Gofal Iechyd Oasis yn diweddarau gwefan y practis er mwyn cynnwys yr wybodaeth sy'n berthnasol yng Nghymru. | Rheolwr y practis i gymryd camau dilynol | 2 fis |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|---|--|---|---|
| | <p>berthnasol i gleifion yng Nghymru. Lle ceir gwybodaeth am gwynion, dylid hefyd diweddarau'r manylion am y sefydliadau y gallai cleifion gysylltu â nhw pe bai cwyn ganddynt i gynnwys AGIC, y Cyngor Iechyd Cymuned, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (yn unol â'r hyn a nodwyd yn Gweithio i Wella).</p> <p>[Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Canllawiau Hysbysebu Moesol a Safonau 5.1.5; Gweithdrefn GIG Cymru 'Gweithio i Wella'; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Diwygio) 2011, Adran 15 (4a)]</p> | | | |
| 8 | <p>Dylai'r practis roi gwybodaeth bellach am hyrwyddo iechyd i gleifion, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmegu ac atal a bod yn ymwybodol o ganser y geg.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 1.1]</p> | <p>Trafodwyd â chlinigyddion ynglŷn â'r wybodaeth a roddir yn yr ystafelloedd triniaeth.</p> <p>Taflenni priodol i gael eu darparu</p> | Rheolwr y practis | <p>CWBLHAWYD</p> <p>Cyn gynted â phosib</p> |
| Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal | | | | |
| 9 | <p>Dylai'r practis wneud gwelliannau i'r gadair a ddefnyddir gan y staff clinigol yn yr ystafell driniaeth ar y lawr daear er mwyn sicrhau y gall gael ei lanhau'n effeithiol i leihau'r perygl o groes-heintio.</p> | <p>Casglu dyfynbris i atgyweirio'r gadair</p> <p>Dechrau'r gwaith wedyn</p> | <p>Rheolwr y practis</p> <p>Rheolwr y practis</p> | <p>2 wythnos</p> <p>6 wythnos</p> |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------|---|--|--|-----------|
| | [Canllawiau WHTM 01-05, adrannau 6.61 a 6.62] | | | |
| 10 | <p>Dylai'r practis ystyried newid i system fwy diogel i waredu ar offer miniog.</p> <p>Dylai'r practis ystyried disodli'r bandiau matrices gan fathau untro, er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio ac i amddiffyn staff rhag anafiadau posibl gan offer miniog oherwydd yr anawsterau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio'r math hwn o offer.</p> <p>[Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Miniog mewn Gofal Iechyd) 2013, Rheoliad 5; Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, adrannau 1.17 a 2.20]</p> | <p>Bydd y practis yn symud ymlaen at ddefnyddio chwistrelliadau Safety Plus.</p> <p>Hefyd, bydd y defnydd o fandiau matrices yn cael ei gyflwyno'n raddol drwy gydol y flwyddyn hon.</p> | Rosie Carter | Yn parhau |
| 11 | <p>Dylai'r practis sicrhau bod holl arwyddion addas sy'n rhybuddio am ymbelydredd yn eu lle.</p> <p>[Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999 – 18 (1) (a) a (ii).]</p> | Gosodwyd arwydd yn ôl ar ddrws yr ystafell driniaeth. | Rheolwr y practis | Cwblhawyd |
| 13–14 | <p>Dylid gwella'r broses o gadw cofnodion cleifion, a dylid cofnodi'r canlynol yn nodiadau cleifion yn gyson:</p> <ul style="list-style-type: none"> • System gadarn ar gyfer cael a | <p>Adolygiad â'r clinigwyr – llwyddwyd i wneud yr holl bwyntiau.</p> <p>Mae protocol Hanes Meddygol eisoes ar waith, ac mae taflenni yn cael eu cydlofnodi yn unol â'r</p> | Rheolwr y practis Sridevi Narayanan | Yn parhau |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|------------------------------------|---|--|---|----------|
| | <p>diweddarau hanesion meddygol cleifion</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sgrinio canser y geg • Cyngor am roi'r gorau i ysmegu • Galw'n ôl • Cydsyniad y claf <p>Dylai'r practis hefyd ystyried cynnal adolygiad o'r ffordd mae'n cymryd pelydrau-X (cynllunio triniaeth) ac yn rhoi triniaeth ymataliol (fflworid) i oedolion sydd â pherygl uchel o bydredd a phlant.</p> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4; Safonau Iechyd a Gofal 3.5]</p> | <p>argymhellion. Byddant yn cael eu hadolygu a'u monitro.</p> <p>Clinigwyr i ymgymryd ag archwiliadau cardiau cofnodi rheolaidd i sicrhau cydymffurfedd llwyr.</p> | | |
| Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | | | | |
| 15 | <p>Dylai'r holl staff, gan gynnwys deintyddion, gael arfarniadau blynyddol a chynlluniau datblygu personol.</p> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.1; Safonau Iechyd a Gofal 7.1]</p> | <p>Ar hyn o bryd, mae gan yr holl staff arfarniadau blynyddol a chynlluniau datblygu personol. Trefnu arfarniadau clinigol gyda'r ymgynghorydd clinigol rhanbarthol.</p> | <p>Rheolwr y practis i'w drefnu</p> <p>Ymgynghorydd clinigol i'w roi ar waith</p> | 1 mis |
| 16 | <p>Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff clinigol yn cael brechiadau priodol, gan gynnwys unrhyw frechiadau atgyfnerthu a argymhellir, i'w hamddiffyn rhag firysau a gludir yn y</p> | <p>Mae'r holl staff wedi derbyn y brechiad a argymhellwyd, ond bydd staff sydd angen brechiad atgyfnerthu gael eu cyfeirio at iechyd galwedigaethol.</p> | Rosie Carter | 2 fis |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|------------------------------|--|--|-----------------------------------|---------------------|
| | gwaed. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.2] | | | |
| 17 | Dylid diweddarau'r polisi cwynion i gynnwys manylion cyswllt AGIC ar gyfer cleifion preifat a manylion y Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer cleifion y GIG. [Gweithdrefn GIG Cymru 'Gweithio i Wella'; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Diwygio) 2011, Adran 15 (4a); Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.3] | Diweddarwyd y polisi i gynnwys y manylion a argymhellwyd. | Rheolwr y practis | Cyn gynted â phosib |
| Ansawdd yr Amgylchedd | | | | |
| 19 | Rhaid i holl wybodaeth cleifion, gan gynnwys radiograffau a broseswyd â llaw, gael ei chadw'n gyfrinachol a'i storio'n ddiogel fel rhan o gofnodion y cleifion. [Safonau Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1 a 4.2; Safonau Iechyd a Gofal 4.2] | Yn sgil defnyddio pelydrau-X digidol bellach, fe fyddwn yn sicrhau bod hen radiograffau sydd wedi cael eu prosesu â llaw yn cael eu storio mewn cabinet sy'n gallu cael ei gloi. | Rheolwr y practis Rosie Carter | Cwblhawyd |

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): Clair Neale [*Cyflwynwyd yn electronig*]

Teitl: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 14/05/2015 [*Cyflwynwyd yn electronig*]